

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynigion yn ymwneud â chyhoeddi ystadegau swyddogol

Dyddiad cyhoeddi: **09 Rhagfyr 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **03 Mawrth 2014**

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion ynghylch newidiadau i'r allbynnau ystadegol a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru.
Sut i ymateb	<p>Byddem yn ddiolchgar am adborth ar ein cynigion, yn enwedig ar y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth fydd effaith y cynigion hyn ar eich gwaith? • At ba ddibenion fyddwch chi'n defnyddio'r ystadegau? • A ydych yn cytuno â'r pwyslais ar wneud setiau data ar gael mewn fformat agored â chyhoeddiadau ystadegol mwy dadansoddol ond llai aml? • Ble'r ydym yn bwriadu rhoi'r gorau i gynhrychu neu leihau nifer yr ystadegau sydd ar gael, a oes unrhyw ddibyniaethau rhwng ein hystadegau a'ch gwaith nad ydym wedi'u hystyried? • A oes unrhyw faterion o ran amseru y dylem eu hystyried wrth leihau amllder ystadegau? <p>Anfonwch eich sylwadau at Uned Polisi a Safonau'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn stats.info.desk@wales.gsi.gov.uk gan ddefnyddio teitl y pwnc "YMATEB I'R YMGYNGHORIAD SWYDDOGOL YNGHYLCH YSTADEGAU"</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Atodiad www.wales.gov.uk/consultations/statistics/proposals-concerning-publication-official-statistics</p> <p>Mae'r holl allbynnau ystadegol a gynhrychir ar hyn o bryd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ystadegau ac www.statscymru.cymru.gov.uk</p>
Manylion cysylltu	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: stats.info.desk@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni:

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch hynny wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

1. Rhagair gan y Prif Ystadegydd

Mae ystadegau swyddogol yn cyflawni rôl hanfodol sy'n cynorthwyo'r llywodraeth a defnyddwyr eraill i wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau, cynllunio a deall effeithiolrwydd polisi. Rydym yn cyhoeddi amrediad anferth o ystadegau am Gymru a ddefnyddir yn ddyddiol gan y llywodraeth, y Cynulliad, awdurdodau lleol, busnes, y byd academiaidd, y gwasanaeth iechyd, y sector addysg a'r cyfryngau.

Mae'r galw am dystiolaeth a data wedi cynyddu'n gyflym dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi ehangu a datblygu ein gwaith. Mae hyn yn amrywio o waith yn ymwneud ag ystadegau swyddogol newydd (megis ystadegau ynghylch Dechrau'n Deg¹) i ddulliau newydd o gyhoeddi data (gweler gwefan Fy Ysgol Leol²) neu weithio gyda phartneriaid i sicrhau fod ganddynt y data y mae eu hangen arnynt i reoli gwelliannau a pherfformiad (megis datblygu Setiau Data Craidd Cymru Gyfan).

Mae technolegau newydd, data agored a lledaenu electronig hefyd wedi newid y ffordd rydym ni fel Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn cynhyrchu ystadegau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ddogfen strategaeth â gweledigaeth i symud y pwyslais o gasglu i ddadansoddi, dehongli a chefnogi defnyddwyr.

Yn unol â'r weledigaeth hon, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r data trwy ddefnyddio rhagor o ffynonellau gweinyddol, ac yn y tymor hir, yn lleihau'r baich o gasglu data. Mae arnom eisiau sicrhau hefyd ein bod yn cynhyrchu allbynnau a dadansoddiadau ystadegol sy'n ychwanegu gwerth at drafodaeth gyhoeddus ac yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau iawn. Mae hyn yn bwysicach fyth o ystyried y gostyngiadau mewn gwariant a effeithiodd ar holl feysydd y sector cyhoeddus.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlygu ein blaenoriaethau am y blynyddoedd sy'n dod, ac mae'n adeiladu ar y Cynllun Tystiolaeth a gyhoeddwyd ym Mai 2013. Mae'n amlygu'r meysydd ble byddwn yn gwneud newidiadau mewn ymateb i'r amgylchedd newidiol trwy wneud rhagor o ddefnydd o ledaenu electronig, osgoi dyblygu, cydweithio ar draws terfynau sefydliadau a lleihau gwaith sy'n llai gwerthfawr.

Diolch am dreulio amser yn darllen y ddogfen hon. Fel arfer, mae eich adborth yn bwysig i'n cynorthwyo i lywio ein penderfyniadau, felly rhowch wybod inni beth yw eich barn am ein cynigion.

Glyn Jones

¹ www.wales.gov.uk/statistics-and-research/flying-start/

² <http://mylocalschool.wales.gov.uk/>

2. Cefndir

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi³ tua 500 allbwn ystadegol y flwyddyn ochr yn ochr ag amrediad anferth o ddata manwl yn StatsCymru⁴. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith hwn gan ystadegwyr o fewn adran y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi sydd hefyd yn darparu cymorth ystadegol i adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Mae ein hystadegwyr hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran cynrychioli buddiannau Llywodraeth Cymru, a defnyddwyr o Gymru yn fwy cyffredinol, wrth ddelio â chynhyrchwyr eraill ystadegau swyddogol, megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol, adrannau llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Cynhyrchir ein hystadegau yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Mae'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni ymgysylltu â defnyddwyr oddi fewn a thu allan i'r llywodraeth ac i ymgynghori â'r holl ddefnyddwyr ynghylch newidiadau i ystadegau swyddogol.

Mae cynhyrchwyr ystadegau swyddogol eraill yng Nghymru, yn cynnwys y sawl a enwir yng Ngorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013. Mae'r holl gynhyrchwyr hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gasglu a chyhoeddi ystadegau am Gymru.

3. Ein gwaith a'n blaenoriaethau

Caiff ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru eu defnyddio'n helaeth, ac maent yn hollbwysig at ddibenion gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, dyrannu adnoddau ac atebolrwydd ar draws Cymru. Maent yn cynnig ffynhonnell awdurdodol a ddefnyddir yn ddyddiol gan Lywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol eraill, y sector gyhoeddus, y sector breifat, academia, y cyfryngau a'r cyhoedd.

Er enghraifft:

- Mae ein hystadegau perfformiad y GIG yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i allu asesu perfformiad ein gwasanaeth iechyd yn erbyn ystod o dargedau llywodraeth.
- Defnyddir ein hystadegau perfformiad ysgolion i fesur perfformiad y sector, o Gymru gyfan i ysgolion unigol, a dyma yw sail hunanwellhad ysgolion; y fethodoleg bandio ysgolion a'r wefan Fy Ysgol Leol.
- Defnyddir ein hamcanestyniad is-genedlaethol o boblogaeth a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i gynllunio tai a datblygu i'r dyfodol ac i ddyrannu adnoddau yn effeithiol.
- Mae'r £4.26bn a ddosbarthir trwy'r setliad Llywodraeth Leol yn seiliedig i raddau helaeth ar ystadegau swyddogol a gesglir gan Lywodraeth Cymru a chynhyrchwyr eraill.

Mae'r galw am ddata a thystiolaeth wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae blaenoriaethau sy'n datblygu yn golygu ein bod yn adolygu'r hyn a wnawn trwy'r amser. Rydym wedi cynnal ystod eang o allbynnau

³ www.wales.gov.uk/statistics-and-research

⁴ <http://statscymru.cymru.gov.uk>

ystadegol ac wedi llwyddo i gynyddu ein cynnyrch yn rheolaidd. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, datblygu a chyhoeddi'r data blynyddol cyntaf o Arolwg Cenedlaethol Cymru; dull newydd o gasglu data manwl a set o ystadegau swyddogol ynghylch Dechrau'n Deg a'r profion darllen a rhifedd newydd; ac allbynnau ystadegau economaidd newydd ynghylch Sectorau Blaenoriaeth a Thwf Swyddi Cymru. Mae hyn ochr yn ochr â gwaith i gefnogi blaenoriaethau Gweinidogion megis datblygu gwefannau *Fy Ysgol Leol* a *Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol* a Bandio Ysgolion, a gwaith ar ystadegau marwolaethau mewn ysbytai.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi cynllun gwaith ystadegol ⁵ i hysbysu defnyddwyr am ein blaenoriaethau am y flwyddyn neu'r blynyddoedd sy'n dod, ac eleni, cyhoeddwyd hwn fel rhan o gynllun dadansoddol ehangach sy'n ymgorffori'r rhaglen ymchwil.

Mae crynodeb fer o'n gweithgarwch a'n blaenoriaethau ar draws meysydd portffolio i'w weld isod.

Twf a swyddi cynaliadwy

- Rydym yn parhau i gyhoeddi ystod o allbynnau ystadegau economaidd ynghylch Cymru, ble maent yn ychwanegu gwerth at gyhoeddiadau gan yr ONS ac adrannau eraill, i sicrhau fod gan ddefnyddwyr yng Nghymru fynediad at ddadansoddiad a dehongliad o'r economi a'r farchnad lafur yng Nghymru.
- Mae hyn yn cynnwys ein bwletin ystadegau economaidd allweddol misol, ein proffiliau rhanbarthol a'n dangosyddion allbynnau tymor byr, yn ogystal â diweddariadau rheolaidd i fwletinau ar bynciau penodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein cyfres fisol ynghylch *Twf Swyddi Cymru*.
- Wrth i waith ar argymhellion Comisiwn Silk gael ei ddatblygu, bydd angen inni hefyd ystyried pa ddata sydd eu hangen ynghylch yr economi a chyllidau cyhoeddus yng Nghymru yng nghyd-destun pwerau posibl i amrywio trethi.
- Byddwn yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi ystadegau am ddamweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru, ac yn coladu gwybodaeth ynghylch ystadegau trafnidiaeth yn fwy cyffredinol gan amrywiaeth o gynhyrchwyr gwahanol.

Addysg a Sgiliau

- Rydym yn casglu, yn coladu ac yn cyhoeddi ystod eang o wybodaeth hollbwysig ynghylch ysgolion a'u perfformiad. Mae hyn yn cynnwys casglu a lledaenu'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion gan bob ysgol yng Nghymru, data presenoldeb a gwaharddiadau, a pherfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd.

⁵ www.wales.gov.uk/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/knowledge-analytical-services-evidence-plan

- Defnyddir yr wybodaeth gennym i gyfrifo bandiau ysgolion a pharatoi Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, ac maent ar gael ar wefan lwyddiannus Fy Ysgol Leol.
- Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o ystadegau ôl-16 yn cynnwys data perfformiad trwy'r Cymaryddion Cenedlaethol ac adroddiadau ynghylch canlyniadau dysgwyr ar lefel darparwyr, yn ogystal â'n hallbynnau ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Rydym yn gweithio'n agos â'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a byddwn yn parhau i gynhyrchu allbynnau am y sector addysg uwch sy'n benodol i Gymru na ellir eu cynhyrchu yn unman arall.
- Mae ein gwaith ar fodelu cyllid myfyrwyr yn hollbwysig i fonitro cyllidebau a datblygu polisi yn y dyfodol.

lechyd i'r 21^{ain} ganrif

- Rydym yn parhau i gyhoeddi data rheolaidd ynghylch perfformiad y GIG i gefnogi monitro ac atebolrwydd. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys data misol ynghylch ystod helaeth o fesurau megis Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth, Ymateb Ambiwlansys ac Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.
- Fodd bynnag, gan ein bod wedi ymgynghori ynghylch data damweiniau ac achosion brys, byddwn hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i adolygu sut gellir cynhyrchu cyhoeddiadau o'r fath yn fwy amserol ac effeithiol.
- Yn dilyn ein dwy Erthygl Ystadegol gyntaf ynghylch marwolaethau mewn ysbytai, byddwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu ystadegau swyddogol ynghylch marwolaethau mewn ysbytai yng Nghymru mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn parhau i ddatblygu gwefan *Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol*.
- Byddwn yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn eu cefnogi wrth iddynt ddod yn gynhyrchwyr ystadegau cyhoeddus ac yn cydweithio â hwy ynghylch datblygu a chyhoeddi casgliad safonol o ddata atal-cenhedlu cymunedol, a fydd yn disodli'r casgliad presennol o adroddiadau data cyfanredol.
- Byddwn yn cyflwyno setiau data ar lefel cleifion yn achos data ar weithgarwch yn ymwneud â chleifion allanol yng Nghymru.
- Rydym yn bwriadu gwella'r ystadegau a gyhoeddir ynghylch gwasanaethau gofal llygaid i gynhyrchu darlun cynhwysfawr ar gyfer Cymru.
- Rydym yn parhau i ymgymryd ag Arolwg Iechyd Cymru a byddwn yn cyhoeddi cyfres reolaidd o adroddiadau yn unol ag anghenion defnyddwyr.

Cefnogi pobl

- Rydym yn ymgymryd â phrosiect i wella argaeledd data cysylltiedig ar gyfer gofal cymdeithasol; yn y tymor canolig (o fewn dwy flynedd), fe wnaiff hyn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi data gofal cymdeithasol ac iechyd cysylltiedig.

Cartrefi Cymru

- Rydym yn parhau i gasglu a chyhoeddi ystadegau allweddol ynghylch tai, yn fisol, yn chwarterol ac yn flynyddol yn ôl y galw.
- Rydym yn cynhyrchu rhagolygon a dyraniadau tai, yn cynnwys cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, rhenti tai cymdeithasol a lwfans atgyweiriadau mawr.
- Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu system awtomataidd o bennu lefelau rhenti ar gyfer landlordiaid cymdeithasol ar sail polisi newydd Llywodraeth Cymru ynghylch rhenti tai cymdeithasol.
- Byddwn yn gwneud astudiaeth dichonolrwydd i ystyried manteision posibl, i ddarparwyr data a Llywodraeth Cymru, casglu data ynghylch eiddo tai cymdeithasol unigol, yn cynnwys a ellir codi data'n uniongyrchol o systemau gwybodaeth rheoli darparwyr.

Cymunedau diogelach i bawb

- Byddwn yn parhau i gyhoeddi amrywiaeth o allbynnau ystadegol ynghylch digwyddiadau tân ac ynghylch y Gwasanaethau Tân ac Achub. Byddwn hefyd yn cefnogi gwaith i weithredu canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch ystadegau tannau, megis gwella gwybodaeth ynghylch targedu gweithgareddau atal tannau yn effeithiol.

Trechu Tlodi

- Yn 2014, byddwn yn cyhoeddi'r fersiwn nesaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), sef mesuriad swyddogol Llywodraeth Cymru o ddifreintedd cymharol mewn rhannau bychan o Gymru.
- Byddwn yn parhau i gyhoeddi data dangosyddion MALIC yn flynyddol.
- Byddwn yn parhau â'n cyfres newydd o ystadegau swyddogol ynghylch Dechrau'n Deg, yn dilyn cyhoeddi'r ystadegau swyddogol cyntaf eleni.
- Rydym yn cefnogi gwaith o fewn Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

Cymunedau gwledig

- Rydym yn casglu ac yn lledaenu Arolygon Amaethyddol Mehefin a Rhagfyr;
- Mae ein dadansoddiad o'n data amaethyddol a gwledig ein hunain ac o ffynonellau allanol yn cefnogi cydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru a defnyddwyr eraill;
- Rydym yn cefnogi gwaith o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Yr amgylchedd a chynaliadwyedd

- Rydym yn parhau i gyhoeddi ystadegau chwarterol a blynyddol ynghylch rheolaeth gwastraff trefol gan awdurdodau lleol.
- Gwaith gyda'r corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, i ystyried rolau a chyfrifoldebau o ran ystadegau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.
- Wrth i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol barhau i ddatblygu, byddwn yn ystyried y gofyniad ar gyfer dangosyddion ategol.


Gweithgareddau trawsbynciol

- Gwneud defnydd o ganlyniadau blwyddyn gyntaf Arolwg Cenedlaethol Cymru a pharhau i gasglu, adolygu a datblygu'r arolwg i wneud y gorau o'i effaith.
- Rydym yn gweithio'n agos â'r ONS ynghylch allbynnau'r Cyfrifiad a byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi allbynnau yn ymwneud â Chyfrifiad Poblogaeth 2011 yn unol ag anghenion defnyddwyr.
- Rydym yn gweithio gyda'r ONS i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried fel rhan o raglen Tu Hwnt i 2011 sy'n ystyried dyfodol y Cyfrifiad.
- Rydym eisiau sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y data sydd gennym eisoes. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth strategol â'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol newydd yng Nghymru i ddatblygu a gwneud y gorau o ffynonellau data i wella ymchwil a llunio polisïau.

4. Ein rhaglen wella

Rydym yn ymdrechu'n gyson i wella ein ffordd o wneud pethau er mwyn diwallu cymaint o ofynion defnyddwyr ag y bo modd ac i sicrhau ein bod yn ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae strategaeth diweddar Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS), *"Building the Community"*⁶ yn amlinellu gweledigaeth yr Ystadegydd Cenedlaethol ar gyfer y GSS. Y weledigaeth yw ystadegau a gynhrychir gan gymuned gydweithredol, a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ac i ddadlau. Mae'n amlinellu sut bydd y GSS yn ceisio gwneud gwell defnydd o'r data sydd ar gael a threulio rhagor o amser yn cynorthwyo defnyddwyr i ddehongli, deall a defnyddio ystadegau (gweler y ffigur isod).



⁶ <https://gss.civilservice.gov.uk/about/gss-strategy/>

Wrth i'n cynlluniau ddatblygu, byddwn yn ceisio sicrhau y gallwn ni gyflawni'r nodau strategol hyn, trwy gydweithio ag eraill, dileu dyblygu a chynhyrchu rheolaidd a chanolbwyntio ar ddadansoddiad sy'n ychwanegu gwerth at ystadegau swyddogol.

Mae'r galw'n cynyddu ac mae'r hinsawdd ariannol anodd yn parhau, felly mae angen inni barhau i ganfod dulliau o weithio'n fwy effeithiol i'n galluogi i gynnal yr ystod o wasanaethau a chynhyrchion o ansawdd uchel a gynhyrchir gennym, a lleihau baich ein cyflenwyr data mewn awdurdodau lleol, ysgolion a manau eraill.

Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol newydd yng Nghymru⁷ i geisio gwneud y gorau o ffynonellau data presennol i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ystadegau swyddogol ac ymchwil. Yn y tymor hir, gall hyn arwain at fanteision o ran casglu llai o ddata.

Mae galw cynyddol am ragor o wybodaeth amserol a mynediad at setiau data sylfaenol. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno proses newydd ar gyfer cyhoeddi data ynghylch adrannau damweiniau ac argyfwng sy'n golygu fod data misol yn cael eu cyhoeddi'n fwy prydlon, heb sylwadau, i ganiatáu lle inni i gyhoeddi datganiad ystadegol â dadansoddi, cyd-destun a dehongli ychwanegol yn unol â'r strategaeth GSS. Dymunwn ehangu'r dull hwn.

O gofio'r pwyslais ar ddefnyddio StatsCymru, byddwn yn ceisio sicrhau y gallwn ddatblygu ein darpariaeth cefnogi defnyddwyr i ganiatáu i ddefnyddwyr wneud y gorau o'i hymarferoldeb a chael y data yr ydym ei angen.

Eleni, fe wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013⁸. Fe enwodd y Gorchymyn hwn bum sefydliad yng Nghymru sy'n gynhyrchwyr ystadegau swyddogol, y bydd angen iddynt gyhoeddi ystadegau yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Ystadegau a Chofrestru 2007. Bydd y cyrff hyn, ynghyd ag eraill a all fod o fewn cwmpas y Ddeddf hefyd, yn gyfrifol am gynhyrchu a chyhoeddi eu hystadegau eu hunain. Byddwn yn gweithio'n agos â'r cyrff hynny i ddatblygu'r cyfrifoldebau hyn ac osgoi dyblygu.

Ymhellach, gall defnyddwyr ganfod cyhoeddiadau diweddaraf cyrff eraill yn rhwydd trwy gyfryngau cymdeithasol a ffynonellau eraill. Felly, ychydig o werth ychwanegol sydd yna i Lywodraeth Cymru gynhyrchu crynodebau o'r ystadegau hyn. Yn yr ysbryd o ddatblygu cymuned gydweithredol, rydym yn datblygu ein gwasanaeth StatsCymru i alluogi cynhyrchwyr ystadegau swyddogol eraill yng Nghymru i gyhoeddi gwybodaeth yn uniongyrchol os dymunant.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyfres o gynigion sy'n cefnogi'r cyd-destun datblygol hwn a'n hangen i fod â chynllun gwaith hyblyg a chynaliadwy sy'n diwallu ystod eang o anghenion.

⁷ www.wales.gov.uk/newsroom/businessandconomy/2013/7956389/?lang=cy

⁸ www.legislation.gov.uk/id/wsi/2013/649

5. Ein cynigion

Rydym yn cynnig:

- Adeiladu ar ein cymuned gydweithredol gyda sefydliadau partner a diddymu dyblygu yn y gwaith o gyhoeddi ystadegau swyddogol;
- Caniatáu rhagor o amser i ddehongli a dadansoddi gwerth ychwanegol, a lle bydd hynny'n briodol, byddwn yn cyhoeddi setiau data trwy StatsCymru, gan leihau nifer yr allbynnau ystadegol misol a chwarterol rheolaidd. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r setiau data yn fwy prydlon a chynnig cefnogaeth briodol i ddefnyddwyr;
- Symud y data o lawer o'n cyhoeddiadau compendia o gopi caled/pdf i StatsCymru, gan sicrhau fod y data ar gael i ddefnyddwyr ar ffurf cod agored ac y gellir eu llwytho i lawr.
- Yn achos yr ychydig allbynnau hynny sy'n ychwanegu llai o werth, neu mae'r defnydd ohonynt y tu allan i gynulleidfa arbenigol iawn neu fewnol yn brin iawn, byddwn yn lleihau eu hamledd neu'n rhoi'r gorau i gasglu/cyhoeddi'r data.
- Cyhoeddi ceisiadau ad hoc am wybodaeth ystadegol, gan gysoni ein safonau gwasanaeth â'n dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth.

Mae rhagor o fanylion am y cynigion hyn ar gael yn yr adrannau dilynol ac mae'r atodiad⁹ yn cynnig manylion ynghylch sut gwnaiff hyn effeithio ar allbynnau penodol.

6. Adborth a'r camau nesaf

Byddwn yn cyhoeddi ymateb yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad hwn.

Byddem yn ddiolchgar am adborth ar ein cynigion, yn enwedig ar y cwestiynau canlynol.

- Beth fydd effaith y cynigion hyn ar eich gwaith?
- At ba ddibenion fyddwch chi'n defnyddio'r ystadegau?
- A ydych yn cytuno â'r pwyslais ar wneud setiau data ar gael mewn fformat agored â chyhoeddiadau ystadegol mwy dadansoddol ond llai aml?
- Ble'r ydym yn bwriadu rhoi'r gorau i gynhyrchu neu leihau nifer yr ystadegau sydd ar gael, a oes unrhyw ddibyniaethau rhwng ein hystadegau a'ch gwaith nad ydym wedi'u hystyried?
- A oes unrhyw faterion o ran amseru y dylem eu hystyried wrth leihau amllder ystadegau?

Anfonwch adborth at Uned Polisi a Safonau'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn stats.info.desk@wales.gsi.gov.uk gan ddefnyddio teitl y pwnc "YMATEB I'R YMGYNGHORIAD SWYDDOGOL YNGHYLCH YSTADEGAU"

⁹ www.wales.gov.uk/consultations/statistics/proposals-concerning-publication-official-statistics

7. Cynigion manwl

7.1 Adeiladu ar ein cymuned gydweithredol gyda sefydliadau partner a diddymu dyblygu yn y gwaith o gyhoeddi ystadegau swyddogol.

Rydym yn gweithio'n agos iawn ag amrywiaeth o bartneriaid, megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a Chyfoeth Naturiol Cymru ac eraill, sydd oll â rôl bwysig o ran cynhyrchu ystadegau swyddogol am Gymru.

Byddwn yn parhau i wneud hynny, ond fel rydym wedi datgan uchod, byddwn yn gwneud hynny fel cymuned gydweithredol er mwyn atal dyblygu a sicrhau fod gan ddefnyddwyr set o wybodaeth ystadegol glir a dealladwy a gyhoeddir, lle gellir gwneud hynny, gan y sawl sy'n casglu'r data. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau i alluogi i sefydliadau eraill gyhoeddi'n uniongyrchol trwy StatsCymru.

Byddwn yn parhau i sicrhau fod gwefan Ystadegau Cymru yn darparu ffenestr at yr ystadegau hyn trwy gyfeirio defnyddwyr atynt. Fodd bynnag, byddwn yn cynhyrchu llai o grynodedau byr o ystadegau sefydliadau lle nad yw hynny'n ychwanegu gwerthu, a byddwn yn cynhyrchu llai o Fwletinâu Ystadegol sy'n dyblygu gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd mewn manau eraill.

Wrth gwrs, byddwn yn parhau i gynrychioli buddiannau defnyddwyr ystadegau yng Nghymru wrth inni drafod â sefydliadau Prydeinig a cheisio dylanwadu ar eu cynlluniau cyhoeddi a sicrhau fod cynnwys eu hallbynnau yn darparu data sy'n benodol i Gymru lle bynnag gellir gwneud hynny.

Darperir manylion yn yr [atodiad](#) dan Gynnig 1

7.2 Caniatáu rhagor o amser i ddehongli a dadansoddi gwerth ychwanegol, a lle bydd hynny'n briodol, byddwn yn cyhoeddi setiau data trwy StatsCymru, gan leihau nifer yr allbynnau ystadegol misol a chwarterol rheolaidd.

Yn unol â gweledigaeth GSS, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddadansoddi a dehongli sy'n llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau a thrafodaethau. Rydym hefyd yn gwybod fod rhai defnyddwyr yn dymuno cael data cyn gynted ag y bo modd ar ffurf y gellir ei aildefnyddio.

Rydym yn treulio llawer iawn o amser ar hyn o bryd ar ddeilliannau misol sy'n ychwanegu ychydig iawn o werth o ran sylwebaeth a dadansoddi. Mae rhai o'r rhain yn allbynnau sy'n hollbwysig i fonitro targedau'r llywodraeth, megis amseroedd ymateb ambiwlansys. Cyhoeddir eraill i sicrhau tryloywder gwybodaeth rheoli amlwg, megis ceisiadau Cyllid Myfyrwyr, ond ni wneir defnydd eang ohonynt y tu allan i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn bwriadu adolygu ein hallbynnau misol a chwarterol i sicrhau ein bod yn parhau i gyhoeddi data'n rheolaidd, yn bennaf trwy StatsCymru, ond lle bydd hynny'n briodol, byddwn yn lleihau amllder Datganiadau Ystadegol Cyntaf a Bwletinâu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y set awdurdodol o ystadegau swyddogol yn dal i fod ar gael yr un mor aml (ac efallai'n gynt), ond heb y sylwadau cysylltiedig. Yn lle hynny, byddwn yn cynhyrchu allbynnau ystadegol llai aml ond o ansawdd uwch, a wnaiff ein galluogi i gynnig sylwebaeth a dehongli'n well. Mae ein cynigion yn ymwneud â data ynghylch perfformiad y GIG yn nodi y dylid gallu cyhoeddi data misol yn ei gylch yn gyflymach; camddefnyddio sylweddau; rhai cyfresi ynghylch tai a data cyllid myfyrwr.

Byddwn yn gwella ein cefnogaeth i ddefnyddwyr StatsCymru, gan sicrhau y darperir y canllawiau a'r hyfforddiant priodol i alluogi i ddefnyddwyr ganfod y wybodaeth y mae ei hangen arnynt a defnyddio'i hymarferoldeb.

Darperir manylion yn yr [atodiad](#) dan Gynnig 2.

7.3 Symud y data o lawer o'n cyhoeddiadau compendia o gopi caled/pdf i StatsCymru, gan sicrhau fod y data ar gael i ddefnyddwyr ar ffurf cod agored ac y gellir eu llwytho i lawr.

Mae cyhoeddiadau compendia yn gyfrolau o ystadegau ar ffurf tablau sy'n darparu gwybodaeth gyfeiriol ynghylch pwnc neu amrywiaeth o bynciau. Rydym yn ymwybodol fod rhai defnyddwyr yn gwerthfawrogi cael yr wybodaeth ar ffurf gyfeiriol. Yn hanesyddol, y rhain oedd y prif fecanwaith i ryddhau symiau sylweddol o ddata sylfaenol.

Fodd bynnag, mae angen llawer o amser i gynhyrchu'r cyfrolau, ac yn oes y rhyngwyd a data agored, maent ar ôl yr oes. Yn aml, byddant yn cynnwys data nad yw'n gyfredol cyn neu'n fuan wedi'u cyhoeddi.

Rydym yn cynnig sicrhau fod y data o'r cyfrolau hyn ar gael trwy StatsCymru yn lle hynny, sy'n rhoi'r hyblygrwydd i ddefnyddwyr gynhyrchu eu tablau eu hunain a llwytho i lawr neu gyrchu'r data ar ffurf cod agored. Rydym eisoes wedi cychwyn gwneud hyn mewn rhai meysydd megis ystadegau ysgolion ac ystadegau tai, a byddwn yn parhau i fynd i'r cyfeiriad hwn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyriol o'n cyfrifoldebau statudol ac anghenion amrywiol defnyddwyr.

Darperir manylion yn yr [atodiad](#) dan Gynnig 3

7.4 Yn achos yr ychydig allbynnau hynny sy'n ychwanegu llai o werth, neu y mae ychydig iawn o ddefnydd ohonynt y tu allan i gynulleidfa arbenigol iawn neu fewnol, byddwn yn lleihau eu hamledd neu'n rhoi'r gorau i gasglu/cyhoeddi'r data.

I sicrhau y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y blaenoriaethau iawn ac i sicrhau fod gennym y gallu i gynhyrchu dadansoddiad ac allbynnau sy'n diwallu angen pennaf defnyddwyr a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, mae'n anochel y bydd angen inni adolygu'r ystadegau hynny sy'n ychwanegu ychydig iawn o werth. Mae'n briodol felly i adolygu diben ein gwaith ystadegol yn rheolaidd.

O ganlyniad i'n hystyriaethau yn ystod misoedd diweddar, a gan ystyried y sefyllfa ariannol dynn ar draws y sector gyhoeddus, bwriadwn leihau'r amllder neu roi'r gorau i gasglu a chyhoeddi rhai mathau penodol o ddata.

Un categori yw bwletinâu ystadegol sy'n darparu dadansoddiad eilaidd o rai data, yn ymwneud â phwnc penodol fel arfer. Yn aml, cynhyrchir ac ailadroddir yr allbynnau hyn yn flynyddol, er na fydd y stori na'r naratif yn newid yn gyflym iawn. Un enghraifft bosibl yw dadansoddiad manwl o lefelau cymwysterau yng Nghymru, sy'n ddogfen gyd-destunol ddefnyddiol iawn, ond ni fydd yn newid llawer iawn o flwyddyn i flwyddyn. Yn achos allbynnau o'r fath, byddwn yn adolygu pa mor aml y cânt eu cyhoeddi, ac yn datgan yn glir i ddefnyddwyr ac ar ein gwefan pryd byddant yn debygol o gael eu cynhyrchu nesaf. Os gellir gwneud hynny, byddwn yn parhau i sicrhau fod setiau data sylfaenol ar gael.

Categori arall yw bwletinâu ystadegol lle mae'r gynulleidfa yn grŵp cyfyngedig iawn, lle caiff data eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru fel gwybodaeth rheoli yn unig ar y cyfan, neu lle mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael o ffynonellau eraill. Enghreifftiau o'r rhain yw'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i fyfyrwyr neu arolygon addysgol Stats2 a Stats3 o awdurdodau lleol. Yn achos yr allbynnau hyn, byddwn naill ai'n casglu data yn llai aml neu'n rhoi'r gorau i'w cyhoeddi.

Darperir manylion yn yr [atodiad](#) dan Gynnig 4.

7.5 Cyhoeddi ceisiadau ad hoc am wybodaeth ystadegol, a chysioni ein safonau gwasanaeth â'n dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth.

Yn ogystal â'n cyhoeddiadau ystadegol, rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth i ddefnyddwyr ystadegau yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth ystadegol pan gawn geisiadau. Gwneir hyn fel busnes arferol neu trwy'r prosesau Rhyddid Gwybodaeth.

Gosodwyd ein safonau gwasanaeth ar gyfer ceisiadau am ystadegau yn hanner cyntaf y ddegawd ddiwethaf, ac maent ar gael yma:

www.wales.gov.uk/statistics-and-research/about/statement-of-compliance/customer-service-and-complaints/?lang=cy

Mae anghysondeb rhwng y safonau hyn a gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a byddwn yn cysoni'r safonau â gofynion y Ddeddf. Gwyddom fod angen gwybodaeth ystadegol yn gyflym yn aml, i gyfrannu at, er enghraifft, penderfyniadau, cyfarfodydd neu areithiau cyhoeddus. Felly, byddwn yn parhau i drafod â'r sawl sy'n cyflwyno ceisiadau ac yn ceisio ateb y galw i gynhyrchu'n gyflym lle gallwn wneud hynny.

Byddwn hefyd yn ceisio dilyn y canllawiau arfer gorau a hyrwyddir gan Awdurdod Ystadegau'r DU a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a symud tuag at gyhoeddi ein hymatebion i geisiadau ad hoc. Bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr nodi gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol iddynt yn rhwydd, ac yn ein galluogi i aildefnyddio ein gwaith yn well.

Darperir manylion yn yr [atodiad](#) dan Gynnig 5.